**Alun Davies AC/AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**
**Minister for Lifelong Learning and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-677
Ein cyf/Our ref ARD/05235/16

Mike Hedges AC
Aelod y Cynulliad dros Ddwyrain Abertawe
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

17 Awst 2016

Annwyl Mike

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 3 Awst, at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ynghylch Deiseb P-04-677 Mynediad Cyfartal i'r Iaith Gymraeg. Anfonwyd yr e-bost ymlaen ataf i i'w ateb.

Yn ddiweddar, cyhoeddais ei bod yn nod gan Lywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd sicrhau bod yr holl ddysgwyr posibl, beth bynnag eu cefndir, yn gallu cael mynediad at gyrsiau Cymraeg yn hollbwysig yn hyn o beth.

Fel y nododd y Gweinidog blaenorol yn ei ateb, mae swyddogion Llywodraeth Cymru'n ystyried yr hyn sydd gan Gymraeg i Oedolion yn gyffredin â Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill, a chaiff darparwyr Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill eu hannog i gynnwys peth hyfforddiant Cymraeg yn eu dosbarthiadau.

Rwyf yn cytuno â'r deisebydd y dylai dysgu Cymraeg fod mor hygyrch â dysgu Saesneg. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod, ar hyn o bryd, gwahanol bolisïau o ran codi ffioedd, a'r darparwyr unigol eu hunain sy'n penderfynu ar y ffioedd a godir am gyrsiau Cymraeg i Oedolion, nid Llywodraeth Cymru.

Sefydlwyd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol y llynedd. Nod y Ganolfan yw gosod y trywydd strategol ar gyfer y sector Cymraeg i Oedolion. Ei thasg gyntaf oedd penodi darparwyr i ddarparu cyrsiau o fis Medi 2016 ymlaen. Mae'r darparwyr bellach yn eu lle, ac yn awr gall swyddogion, y Ganolfan Genedlaethol, a darparwyr gynnal trafodaethau dros y flwyddyn ynglŷn a'r mater o ffioedd i ddysgwyr. Bydd angen inni sicrhau bod yr holl

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ddysgwyr posibl, beth bynnag eu cefndir, yn gallu cael mynediad at gyrsiau ym mhob cwr o Gymru er mwyn cyfrannu at gyflawni'r nod o sicrhau un filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Yr eiddoch yn gywir,

**Alun Davies AC/AM**
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Lifelong Learning and Welsh Language